



Eich cyf/Your ref
Ein cyf/Our ref JMEWL/2103/22

Lynn Phillips
Cyfarwyddwr Addysg
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

20 Gorffennaf 2022

Annwyl Lynn

CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG DIWYGIEDIG (CSCA) 2022-32

Diolch i chi am gyflwyno copi o'r Cynllun diwygiedig wedi'i addasu mewn ymateb i fy llythyr dyddiedig 16 Mai 2022. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am eich ymdrech i fynd i'r afael a'r adborth gafwyd, a'r trafod adeiladol bu rhyngoch a fy swyddogion yng nghyfnod diwygio'r Cynllun.

Rwyf wedi ystyried eich Cynllun diwygiedig ac yn barod i'w **gymeradwyo** heb addasiadau pellach.

Dylai'r awdurdod yn awr **gyhoeddi'r Cynllun** yn unol â gofynion [Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg \(Cymru\) 2019](#). Yn y cyd-destun hwn, rhaid ichi gyhoeddi eich Cynllun **ar neu cyn y dyddiad** mae'r Cynllun yn dod yn weithredol, sef Medi 1af 2022. Yn y cyd-destun hwn golyga cyhoeddi:

- (a) ei roi ar wefan yr awdurdod lleol, a
- (b) sicrhau bod copiâu o'r Cynllun ar gael i'r cyhoedd edrych arnynt yn –
 - (i) swyddfeydd yr awdurdod lleol, a
 - (ii) unrhyw le arall y mae'n ei ystyried yn briodol.

O dan adran 85(7) o [Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion \(Cymru\) 2013](#) rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i weithredu eu CSCA. Rwy'n gwybod bod llawer ohonoch eisoes wedi dechrau'r broses o baratoi eich cynllun gweithredu pum mlynedd, a fydd yn cael ei fonitro yn flynyddol ar ffurf adroddiad adolygu. Byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn gallu cyflwyno inni eich cynllun gweithredu gorffenedig erbyn diwedd tymor yr Hydref.


Er mai diben y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yw gwella cynllunio a safon addysg cyfrwng Cymraeg yn eich ardal, mae'n hanfodol bod camau gweithredu ehangach yr awdurdod lleol yn cael eu hasesu i sicrhau eu bod yn gyson â nodau ac amcanion y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Dylai hyn gynnwys asesiad o'ch rhaglen

amlinellol strategol bresennol ar gyfer buddsoddi fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Byddaf yn cyhoeddi canllawiau diwygiedig i sicrhau bod pob achos busnes yn y dyfodol yn cael ei asesu yn erbyn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg sydd wedi'i gymeradwyo.

Mae'n galonogol clywed fod llawer ohonoch yn sefydlu is grwpiau gyda phartneriaid sy'n greiddiol i weithredu eich CSCA. Bydd llwyddiant eich Cynllun yn ddibynnol ar amryw o ffactorau gan gynnwys cydweithio gyda phartneriaid yn lleol, rhanbarthol ac yn genedlaethol.

Mae gan Lywodraeth Cymru rôl i'w chwarae yn y bartneriaeth honno, ac edrychwn ymlaen at barhau i gyd-weithio â chi dros oes y Cynllun. Yn yr ysbryd hynny, rwy'n awyddus i gwrdd âg Arweinydd y Cyngor a chi yn ystod tymor yr Hydref i drafod eich CSCA. Bydd fy swyddfa mewn cyswllt i gytuno dyddiad cyfleus.

Yn ddiffuant

A handwritten signature in black ink, consisting of a circular mark followed by a series of wavy lines and a short horizontal stroke.

Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language